YSGOL DAVID HUGHES

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: post@ysgoldavidhughes.org

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: post@ysgoldavidhughes.org

Pennaeth / Headteacher
Mrs Mari Roberts BSc

Medi 2026

Annwyl rieni a gwarcheidwaid,

Hoffwn estyn croeso cynnes iawn i chi a'ch plant wrth inni ddechrau tymor newydd. Gobeithiaf eich bod wedi mwynhau gwyliau haf braf. Mae dechrau blwyddyn academaidd newydd bob amser yn gyfnod cyffrous, yn llawn uchelgais a chyfleoedd i bob unigolyn wneud cynnydd a chyflawni ei lawn botensial. Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos gyda chi dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau'r profiadau a'r canlyniadau gorau posibl i bob aelod o gymuned yr ysgol eto eleni.

Croeso i'r staff newydd:-

- Mrs Meinir Eluned Anwyl, Pennaeth yr Adran Gymraeg
- Mr Mathew Griffith Thomas, Pennaeth yr Adran Dechnoleg
- Miss Anya Mlynarczyk, Athrawes Daearyddiaeth a Dyniaethau
- Miss Catrin Mari Lloyd, Athrawes Saesneg
- Ms Ruth Gruffudd-Jones, Athrawes Ffrangeg
- Mrs Eleri Wyn Dennis, Swyddog Cefnogi Bugeiliol
- Miss Phillipa Grace Lennon, Cymhorthydd Cyflenwi Gwersi
- Miss Kirstin Mills, Cymhorthydd Dosbarth
- Mr Connor Thomas Warrington, Cymhorthydd Dosbarth

Mae newid i rai rolau staff hefyd:

- Miss Angharad Jones, Pennaeth Hanes
- Mr Sion Keir, Ail yn yr Adran Fathemateg
- Miss Gwen Frances Owen, Pennaeth Addysg Iechyd
- Miss Elin Morgan-Price, Cydlynydd Gyrfaoedd/ Byd gwaith / Profiad Gwaith
- Mr Andrew Carl Wannop, Pennaeth Blwyddyn 9
- Miss Siwan Ellis Jones, Pennaeth Blwyddyn 10

Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol, dyma gysylltu i rannu gwybodaeth all fod o ddefnydd i chi y flwyddyn addysgol hon.

Atodaf gopi o galendr y flwyddyn, er gwybodaeth i chi:
https://drive.google.com/file/d/1rZtupy_-sABMA5AlbkHjgFyBH1yBg0a9/view?usp=sharing

Ein blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod:
https://drive.google.com/file/d/1wZpR4-_4MlNLqYHfPMy87YiLkwbqdMiN/view?usp=sharing

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: post@ysgoldavidhughes.org

YSGOL DAVID HUGHES 1603

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: post@ysgoldavidhughes.org

Pennaeth / Headteacher
Mrs Mari Roberts BSc

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth o'n disgwyliadau presenoldeb, gwisg ysgol a defnydd ffonau symudol.

Mae gan Ysgol David Hughes ddyletswydd a chyfrifoldeb i annog disgyblion ddysgwyr i'r arfer o fynychu'n rheolaidd er mwyn cyflawni eu llawn botensial. Mae'r ysgol felly'n ymroddedig i wella lefelau presenoldeb a phrydlondeb yr ysgol (y targed ysgol-gyfan yw 95%). Felly, byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn fawr iawn.
https://drive.google.com/file/d/1E-lrhgvHpdPq_wLWjsQP4XCUg726T3UO/view?usp=sharing

https://drive.google.com/file/d/1IWGfpLCZZ4NMMx6R5LFqaCvrTxwjfxgc/view?usp=sharing

Mae bron pob dysgwr wedi mynychu yn daclus yn eu gwisg ysgol yn y pythefnos cyntaf. Diolch i chi am barhau i barchu rheolau gwisg yr ysgol. Cofiwch **nad** ydym yn caniatáu:

- Leggings
- Jeans a chotiau denim/lledr
- Esgidiau anaddas – angen esgidiau UNLLIW DU
- Hwdis
- Gwaelod tracwisg neu cargo
- Tlysau ar yr wyneb
- Sgertiau byr iawn
- Gwallt lliw annaturiol.

Er mwyn bod ein dysgwyr yn iach a'n gallu canolbwyntio yn y dosbarth, mae gennym reolau penodol am y defnydd o ffonau symudol yn yr ysgol. Ni chanteir ffonau symudol yn yr ysgol o gwbl gydag eithriad i ddysgwyr sy'n dioddef cyflyrau meddygol ble mae angen y ffonau i bwrpas meddygol. Bydd ffonau sy'n cael eu gweld yn cael eu cadw tan ddiwedd y dydd. Byddwn yn cysylltu gyda rhieni os na fydd y dysgwyr yn cydymffurfio gyda'r rheolau yma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa i sicrhau cinio di-dâl i'n dysgwyr sy'n gymwys. Dyma ddolen i'r wybodaeth a'r ffurflen gais Prydau ysgol am ddim

Os ydych yn gymwys am ginio di-dâl i'ch plentyn/plant, cofiwch eich bod hefyd yn gymwys i dderbyn grant gwisg ysgol Grant Hanfodion Ysgol (Grant Datblygu Disgyblion yn flaenorol)

Mae clywed barn a llais ein rhieni yn hynod bwysig i ni. Bu i'r Fforwm Rhieni gyfarfod dwy waith y llynedd i drafod materion ac agweddau pwysig o fywyd ysgol. Byddem yn ddiolchgar iawn o gael mwy o aelodau ar y Fforwm ac fe fyddwn yn gadael i chi wybod pan fydd y cyfarfod cyntaf wedi ei drefnu.

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: post@ysgoldavidhughes.org

Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: post@ysgoldavidhughes.org

Pennaeth / Headteacher
Mrs Mari Roberts BSc

Dyma ein Cynllun Cyfathrebu am 2026-2027:

https://drive.google.com/file/d/1dlCaVAGbXjAGUawuhUz0tUaoelJMlT_d/view?usp=sharing

Mae croeso i chi gysylltu gyda mi'n uniongyrchol neu gyda'r aelod staff perthnasol, os oes gennych unrhyw gwestiynau, pryderon, neu awgrymiadau.

Dyma linc i wyliau ysgol a diwrnodau HMS am 2026-2027:
https://drive.google.com/file/d/1RoOvYfKDRZEXg7bdGpAuaJuS2hMlTOTm/view?usp=sharing

Diolch am eich cefnogaeth,

Cofion cynnes,

Mari Roberts

**Mrs Mari Roberts**
**PENNAETH**